**Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod**
**Prifysgol Aberystwyth**
**Telerau ac Amodau**

1. Cynigir Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod i ymgeiswyr a fydd wedi cyrraedd 17 mlwydd oed erbyn 1 Hydref yn y flwyddyn y bwriadant ddechrau ar eu gyrfa yn y brifysgol. Anogir ceisiadau hefyd gan fyfyrwyr hŷn, ond ni dderbynnir ymgeiswyr os bu'n astudio am radd mewn unrhyw brifysgol am fwy nag un tymor.
2. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwneud cais i astudio'n llawn amser am radd mewn unrhyw bwnc israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn astudio 120 o gredydau'r flwyddyn. Noder nad yw ymgeiswyr israddedig ar gwrs lle mae hyd y cwrs yn llai na 3 blynedd yn gymwys ar gyfer y wobr hon.
3. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais ar-lein erbyn y dyddiad cau, yn nodi'r ddau bwnc y dymunant gael eu harholi ynddynt. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn dewis papurau mewn cyfuniad o bynciau sy'n derbyniol i'w darpar adran.
4. Bydd ymgeiswyr yn derbyn eu canlyniadau o fewn 4-6 wythnos o sefyll yr arholiadau.
5. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu cais Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod yn ôl ar gyfer unrhyw ymgeisydd nad ydynt yn gallu cynnig lle iddynt astudio. Er y byddwn yn ymdrechu i adnabod ymgeiswyr o'r fath cyn gynted â phosibl, mae'n bosibl y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud ar ôl i'r arholiadau gael eu cwblhau, er enghraifft pan fo'r cais UCAS wedi cael ei dderbyn yn agos i'r dyddiad cau ar gyfer cystadleuaeth yr Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod ac nad yw wedi cael ei adolygu'n llawn cyn dyddiad yr arholiadau. Noder na fydd canlyniadau arholiadau'r Ysgoloriaeth yn chwarae unrhyw ran yn y penderfyniad hwn - bydd y penderfyniad i gynnig lle i astudio neu beidio yn cael ei wneud yn seiliedig ar y wybodaeth a geir ar ffurflen gais UCAS yr ymgeisydd yn unig.
6. Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer gwobr a/neu gynnig diamod mae'n bwysig dewis papurau arholiad sy'n dderbyniol i'r Adran(nau) yr ydych wedi gwneud cais i astudio ynddi/ynddynt. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi dewis pynciau priodol, am ragor o wybodaeth ewch i'r dudalen Cwestiynau Cyffredin: aber.ac.uk/arholiadau
7. Os na all Adran gynnig lle i ymgeisydd astudio ar eu dewis cyntaf o gwrs ond yn hytrach eu bod yn cynnig lle iddynt astudio ar gwrs tebyg sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen, bydd unrhyw wobr yn berthnasol i'r cynllun diwygiedig hwnnw yn unig.
8. Os bydd ymgeisydd wedi gwneud cais am gynllun sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen a'u bod yn cael cynnig lle ar y cwrs hwnnw, bydd unrhyw wobr a geir yn berthnasol i'r cynllun hwnnw'n unig, ac ni fydd yn trosglwyddo'n awtomatig i gynllun gradd 3 blynedd.
9. Pan ddyfernir Ysgoloriaeth neu Gwobr Teilyngdod, gwneir taliadau trwy Aspire Aber. Bydd myfyrwyr yn cael e-bost oddi wrth Aspire Aber yn eu hysbysu bod yr arian ar gael, ynghyd â chyfarwyddyd ynghylch sut i dynnu'r arian allan.
10. Cyfrifoldeb deiliad y dyfarniad yw tynnu'r arian o'r cyfrif cyn i'r cyllid ddod i ben. Os bydd unrhyw falans yn weddill ar y dyddiad penodedig, bydd yr arian yn cael ei symud o'r cyfrif ac ni fydd modd i chi gael mynediad ato mwyach.
11. Ni wneir taliadau yn ystod blwyddyn dramor, blwyddyn mewn gwaith, blwyddyn rhyng-gwrs, blwyddyn sy'n cael ei hailwneud, ac ati.
12. Bydd Myfyrwyr sy'n gohirio mynediad yn derbyn Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau ar y lefel a hysbysebwyd ar gyfer y flwyddyn gais.
13. Bydd disgwyl i ddeiliaid ysgoloriaethau fynd ati i godi ymwybyddiaeth o'r Brifysgol drwy gymryd rhan mewn cynlluniau hyrwyddo lle bo hynny'n briodol (e.e. ymweliadau ag ysgolion/colegau, diwrnodau agored, diwrnodau ymweld, gweithgareddau ehangu cyfranogiad). Bydd angen cofrestru gyda chynllun AberGwaith, a chaiff myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau

hyn eu talu am yr oriau a weithiwyd ar gyfradd safonol myfyriwr-lysgennad. Hysbysebir y cyfleoedd hyn yn ystod y flwyddyn academaidd.

14. O ran eu dyfarnu a'u dal, caiff yr Ysgoloriaethau eu gweithredu yn unol â'r rheoliadau cyffredinol sy'n llywodraethu Ysgoloriaethau Mynediad Prifysgolion.
15. Bydd y Senedd yn gostwng neu'n atal gwobr yn gyfan gwbl oni bydd y sawl sy'n ei dal yn gwneud cynnydd academaidd yn ôl tystiolaeth athrawon ac yn ôl canlyniadau arholiadau'r Brifysgol, ac os na bu ymddygiad na diwydrwydd y deiliad yn foddhaol.
16. Mae'r Brifysgol yn diogelu ei hawl i atal unrhyw wobr os na cheir ymgeisydd teilwng, i rannu unrhyw wobr mewn achos o gydraddoldeb, ac i ostwng cyfanswm unrhyw wobr os bydd yr ymgeisydd yn derbyn gwobr o ffynhonnell arall.
17. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).

18. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.

19. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

20. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.

21. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'n Hysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau Ariannol cyfredol.

22. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r Ysgoloriaeth yn ôl.